

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Partneriaethau

Dyddiad: 20 Tachwedd 2015

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 26 TACHWEDD 2015** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, Ffordd Churton, Y Rhyll LL18 3DP**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 5 - 12)

I dderbyn cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2015 (copi ynghlwm).

9.35 a.m. – 9.45 a.m.

5 AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU (Tudalennau 13 - 32)

Ymgynghoriad cyhoeddus ar "Sut i gynnal gwasanaethau tân ac achub rhagorol a fforddiadwy yng Ngogledd Cymru yn 2016-2017 a thu hwnt (copi ynghlwm)

9.45 a.m. – 10.20 a.m.

~~~~~ **EGWYL (10.20 a.m. – 10.30 a.m.)** ~~~~~

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR AMDDIFFYN OEDOLION 2014/2015**  
(Tudalennau 33 - 50)

I ystyried adroddiad (copi ynghlwm) er mwyn darparu trosolwg i'r Aelodau o effaith ymarfer a threfniadau amddiffyn oedolion a diogelu lleol. Hefyd i adolygu cynnydd yn y maes allweddol o waith dros y 12 mis diwethaf.

**10.30 a.m. – 11.05 a.m.**

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 51 - 70)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi wedi'i amgáu) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**11.05 A.M. – 11.20 A.M.**

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

**11.20 A.M. – 11.25 A.M.**

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Ray Bartley (Is-Gadeirydd)

Meirick Davies  
Martyn Holland  
Pat Jones  
Dewi Owens

Pete Prendergast  
Arwel Roberts  
Bill Tasker

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Town Hall, Parade Street, Llangollen LL20 8PW, Dydd Iau, 8 Hydref 2015 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Is-Gadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Meirick Davies, Martyn Holland, Pat Jones, Dewi Owens, Pete Prendergast a/ac Arwel Roberts.

Roedd y Cynghorydd T.R. Hughes yn bresennol fel arsylwr.

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (LG), Swyddog Comisiynu a Thendro (KN), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau bod y Cynghorydd T.M. Parry wedi ymddiswyddo o'i aelodaeth ar y Pwyllgor oherwydd ymrwymadau gwaith.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr W.N. Tasker, H.H. Evans, R.L. Feeley a Chyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau, 17 Medi 2015.

Materion yn codi:-

Mewn ymateb i bryderon ei bod yn ymddangos bod swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) o dan bwysau difrifol o ran amser yn y cyfarfod diwethaf wrth drafod y 'Newidiadau Dros Dro i Wasanaethau Menywod a Mamolaeth yng Ngogledd Cymru', esboniodd y Cydlynnydd Archwilio bod y Bwrdd Iechyd yn awyddus i gwrdd â'r holl Gynghorau yng Ngogledd Cymru fel rhan o'r

ymgyngoriad ar y newidiadau arfaethedig, ac oherwydd bod cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Sir eisoes wedi'i drefnu gyda swyddogion BIPBC ar ystod o faterion yn cael ei gynnal deuddydd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad penodol hwn, roedd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau wedi cytuno i drafod yr eitem fusnes yn ei gyfarfod. Roedd yn anffodus, fel rhan o'r un ymgynghoriad, bod angen i swyddogion BIPBC fod yn Nolgellau ar gyfer digwyddiad ymgynghori yn gynnar yn y prynhawn.

Hysbysodd y Prif Weithredwr yr Aelodau ei fod wedi ysgrifennu at Gyfarwyddwr Ardal BIPBC, yn dilyn cyfarfod y Cyngor Arbennig ar 7 Hydref, yn crynhoi pryderon a godwyd gan yr Aelodau yn y cyfarfod hwnnw ar ystod o faterion iechyd a gofal cymdeithasol. Cadarnhaodd hefyd y byddai'n gofyn i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio ystyried a oedd y materion canlynol yn haeddu sylw'r pwyllgor archwilio:-

- datblygiad arfaethedig Ysbyty Brenhinol Alexandra ac unrhyw risg posibl i'r datblygiad (hy y sefyllfa bresennol, yr opsiynau arfaethedig a'r amserlen bosibl);
- pryderon ynghylch argaeledd gofal sylfaenol yn ardal Prestatyn o Ebrill 2016 ymlaen (gan gynnwys darpariaeth amgen posibl);
- Adroddiad y Gwasanaeth Cyngori ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HASCAS) i'r methiannau gofal a thriniaeth cleifion ar Ward Tawelfan yn Ysbyty Glan Clwyd - ystyried canfyddiadau'r adroddiad o safbwynt trigolion Sir Ddinbych ac unrhyw wersi posibl i'r Cyngor;

Dywedodd y Cydlynnydd Archwilio bod y GCIGA i fod i gyfarfod yr wythnos ganlynol a byddai'r cynigion i edrych ar y materion yn cael eu hystyried yn y cyfarfod hwnnw.

O ran y wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan gynrychiolwyr BIPBC yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi, dywedodd y Cydlynnydd Archwilio bod cais ffurfiol wedi ei wneud am y wybodaeth ond hyd yma nad oedd wedi dod i law.

**PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## **5 CYNLLUN COMISIYNU LLEOL CEFNOGI POBL**

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Comisiynu a Thendro, oedd yn rhoi manylion y Cynllun Comisiynu tair blynedd ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl yn Sir Ddinbych, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol yr adroddiad a dywedodd wrth y Pwyllgor fod y Cyngor yn cynllunio tuag at 10% o doriad yn y grant Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer 2016-17. Gan na fyddai swm gwirioneddol o arian grant yn cael ei gyhoeddi tan ddiwedd mis Tachwedd eleni roedd gan y Cyngor gynlluniau wrth gefn hefyd rhag ofn y byddai'r toriad cyllid gwirioneddol yn uwch na'r 10%. Cadarnhaodd y Swyddog Comisiynu a Thendro y bydd y Cynllun Comisiynu Lleol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gogledd Cymru ym mis Ionawr 2016, i ategu datblygiad Cynllun Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa bresennol, cost ac effaith ar wasanaethau eraill, canfyddiadau'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y Cynllun Comisiynu Lleol yn 2013, manylion yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd a risgiau a'r camau a gyflwynwyd i'w lleihau.

Ystyriodd y Pwyllgor Atodiad 1 i'r adroddiad, a chytunwyd bod y cyfarfod yn symud at RAN II.

## **RHAN II**

### **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** - dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 15 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau ar y cynigion sy'n cael eu hystyried ar gyfer torri grantiau Cefnogi Pobl i sefydliadau unigol, a restrir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, cadarnhaodd swyddogion:-

- bod y meini prawf ar gyfer cyllid grant Cefnogi Pobl yn rhagnodol iawn ac felly roedd gwaith manwl wedi ei wneud i sicrhau bod y cyllid a ddarperir yn cael ei ddefnyddio gan bob sefydliad at ei ddiben, a'i fod yn cydymffurfio â'r meini prawf Cefnogi Pobl;
- Fel rhan o'r ad-drefnu prosesau ariannu grant, dyblygu darpariaeth, cydymffurfio ag amodau grant ac a yw'r prosiectau'n gefnogol i'r agenda ymyrraeth gynnar bydd y cyfan yn cael eu harchwilio'n fanwl. Mae'r prosesau monitro contractau a weinyddir gan CP yn sicrhau nad yw sefydliadau'n derbyn arian ar gyfer yr un prosiect o ffrydiau ariannu gwahanol;
- roedd cyrff cyhoeddus eraill, megis y Bwrdd Iechyd hefyd yn edrych ar resymoli eu prosesau a chronni eu ffrydiau ariannu;
- rhan o'r broses dendro ar gyfer gwneud cais i gyflwyno gwasanaethau ar ran y Cyngor yn cynnwys archwiliadau ariannol llym ar y sefydliadau a oedd yn gwneud cais;
- unwaith y byddai cytundeb yn cael ei ddyfarnu byddai'n cael ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyflawni'r amcanion yn unol â manyleb y contract, rhan ohono oedd yn cynnwys dadansoddiad gwerth am arian er mwyn sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau sy'n ychwanegu gwerth i fywydau trigolion Sir Ddinbych;
- nid oedd y Grant Cefnogi Pobl fel arfer yr unig ffynhonnell ariannu sefydliad, gan fod arian grant Cefnogi Pobl yn cael ei ddyrannu at ddibenion penodol;
- roedd swyddogion yn gwasanaethu ar nifer o wahanol grwpiau o fewn y Cyngor a chyda sefydliadau partner h.y. Bwrdd Iechyd ac felly'n gallu ffurfio barn ar y cyd a phenderfyniadau ar geisiadau am gyllid;
- system gyfeirio llwybr sengl yn cael ei weithredu a oedd yn helpu'r Cyngor i benderfynu a yw unigolion a wnaeth gais i gael mynediad i'w wasanaethau yn cael cymorth tebyg gan sefydliadau eraill. Roedd cynlluniau yn eu lle i sicrhau bod hyn yn cael ei integreiddio'n llawn â'r Un Pwynt Mynediad Gwasanaethau Cymorth Cymunedol;

- Roedd Cefnogi Pobl wedi lleihau'r contractau y mae'n eu cynnal gyda sefydliadau unigol, tra yn y gorffennol, gall sefydliad fod wedi cael contractau lluosog gyda Cefnogi Pobl ar gyfer darparu gwasanaethau, nawr byddai ganddo un contract cyffredinol gyda phob elfen unigol o'r contract yn cael ei fonitro fel rhan o'r broses monitro contractau.

Pwysleisiodd yr Aelodau yr angen cyffredinol i lywodraeth ganolog symleiddio'r system cyllid grant i'w gwneud yn haws i'w deall ac yn llai dryslyd a chymhleth ar gyfer Awdurdodau Lleol (ALI) a'r cyhoedd yn gyffredinol. Byddai dull o'r fath yn helpu i adnoddau gwerthfawr gael eu defnyddio'n llawer mwy doeth ac felly'n gwneud y mwyaf o'u heffaith i'r trethdalwr.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at ddull yr Alban lle mai dim ond dau grant sydd bellach yn cael eu dosbarthu gan Lywodraeth yr Alban, a'r gweddill wedi cael ei ymgorffori yn y Grant Cynnal Refeniw a ddyfarnwyd i bob ALI. Roedd y dull hwn yn cynorthwyo ALIau gyda'u trefniadau cynllunio ariannol gan y byddai ychydig iawn o elfennau o'u cyllidebau yn ddibynnol ar ddyfarnu grantiau annibynnol ar gyfer swyddogaethau penodol y Cyngor. Roedd Cyfarwyddwr Adnoddau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau yn ddiweddar i drafod y dull hwn a'i fanteision i ALIau. Awgrymodd y Prif Weithredwr efallai y byddai aelodau am drafod yr agwedd hon ymhellach mewn gweithdy Cyllideb yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau fod yr adroddiad i'r Cabinet: -

- yn cynnwys colofn yn Atodiad 1 yn tynnu sylw at pa un a yw'r arian Grant CP yr unig ffynhonnell incwm gan sefydliad;
- gwybodaeth am yr effaith a ragwelir ar bob sefydliad o'r toriad posibl yn eu cyllid grant Cefnogi Pobl;
- nodi'r sefydliadau hynny a oedd wedi bod yn destun toriadau mewn blynyddoedd blaenorol.

Ar y pwynt hwn parhaodd y cyfarfod gyda RHAN I.

## **RHAN I**

Ar ddiwedd y drafodaeth:-

***PENDERFYNWYD*** - yn amodol ar gynnwys y sylwadau a'r diwygiadau uchod, bod yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet i'w ystyried yn y man.

## **6 CYNLLUN LLES**

Roedd copi o adroddiad gan Reolwr y Tîm Cynllunio Strategol, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau gwerthusiad o chwe mis cyntaf 20 prosiect uchaf Sir Ddinbych a gwybodaeth am y prosiect a gychwynwyd gan Gynllun Lles Sir Ddinbych a oedd wedi ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr, 2014, **wedi** ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.



Cyflwynodd y RhTCS yr adroddiad a chyfeiriodd at y broses a ddilynir gan Fwrdd Partneriaeth Strategol y Sir wrth ddatblygu Cynllun Lles Sir Ddinbych, sy'n canolbwyntio ar Annibyniaeth a Gwydnwch: Dywedodd wrth yr Aelodau ei bod yn rhy gynnar ar hyn o bryd i roi adroddiad cynnydd ar y cynllun cyfan, serch hynny roedd swyddogion yn awyddus i geisio cefnogaeth y pwyllgor archwilio ar gyfer prosiect yr oeddent yn ei dreialu fel rhan o'r Cynllun. O dan Gynllun Lles Prosiect 20 Uchaf Sir Ddinbych roedd partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi unigolion hynod ddiameddiffyn gyda golwg ar eu hatal rhag gorfod gofyn am gymorth diangen gan y gwasanaethau argyfwng/ dwys yn ddiweddarach, yn y mwyafrif o achosion mae'r galw ar y gwasanaethau drud hyn yn amhriodol.

Fel rhan o'r prosiect byddai'r ugain o unigolion mwyaf diameddiffyn sy'n hysbys i bob sefydliad partner, nad oedd yn ymddangos bod gwasanaethau o ddydd i ddydd partneriaid yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir neu nad oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y gwasanaethau sydd ar gael er eu bod angen cefnogaeth yn y Sir, yn cael ei nodi ar y cyd. Roedd y prosiect hefyd yn anelu at osgoi dyblygu gwasanaethau drwy weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd.

Cytunodd y Pwyllgor wrth ystyried Atodiad 2 "Gwerthuso Adroddiad Crynodeb 20 Uchaf Sir Ddinbych" bod y cyfarfod yn symud i RAN II.

## **RHAN II**

### **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** - dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 15 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972:

Roedd cymhlethdod y gwaith ymyrryd gyda'r unigolion hyn wedi'i ddangos drwy nifer o astudiaethau achos, yn ogystal â'r ymdrech a'r amser sydd ei angen i adeiladu perthynas gyda rhai o'r unigolion. Roedd nifer o rwystrau hefyd angen cael eu trafod rhwng partneriaid wrth geisio cefnogi'r unigolion hyn, roedd y rhain yn cynnwys:-

- amharodrwydd i rannu data personol, er ei fod er lles yr unigolyn;
- y math o wybodaeth a gedwir gan wahanol bartneriaid yn amrywio'n sylweddol, gyda rhai yn cadw gwybodaeth ar yr unigolion tra bod eraill yn cadw gwybodaeth am gyfeiriadau ac nid yr unigolion yn y cyfeiriadau hynny;

Ar ôl ystyried Atodiad 2 aeth y cyfarfod yn ei flaen yn RHAN I.

Pwysleisiodd swyddogion mai nod tymor hir y prosiect oedd arbed adnoddau ariannol gwerthfawr ac adnoddau eraill i bob partner. I wneud hyn roedd yn rhaid iddynt fod yn arloesol ac yn ymyrryd ar y cyfle cyntaf sydd ar gael. Wrth wneud hyn roedd yn rhaid i bartneriaid edrych y tu hwnt i'w protocolau a bod yn greadigol, fel arall byddai adnoddau gwerthfawr yn cael eu draenio.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd y swyddogion:-

- Mae angen cael gwared ar y rhwystrau er mwyn adeiladu'r lefel uchel o gyd-ymddiriedaeth sydd ei angen rhwng yr holl bartneriaid i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n hyderus ac yn briodol i hwyluso ymyrraeth gynnar;
- amcan y prosiect hwn oedd i beidio â chreu strwythur arall, ond i hwyluso gweithio ar y cyd ac yn effeithiol ar gyfer y diben o gefnogi unigolion dan sylw, ac i arbed costau diangen i'r pwrs cyhoeddus yn y tymor hir;
- roedd y ffaith bod Heddlu Gogledd Cymru yn arwain ar y prosiect yn helpu i hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth a sicrhau, os nad yw un partner yn fodlon rhannu gwybodaeth ar unigolyn ei bod yn ofynnol iddynt roi rheswm dilys dros ei ddal yn ôl;
- Gallai'r lefel uchel o gyd-ymddiriedaeth a adeiladwyd trwy'r prosiect hwn ond bod o fudd i'r holl bartneriaid yn y tymor hir a byddai'n gwella perthnasau gwaith ar gyfer y dyfodol;
- roedd y prosiect ar hyn o bryd ond yn cael ei dreialu yn Sir Ddinbych, ond roedd y Prif Gwnstabl yn awyddus i'w gyflwyno i ardaloedd eraill gan ei fod yn gweld y manteision o fabwysiadu'r dull ymyrryd yn gynnar; ac
- roedd Swyddfa Archwilio Cymru, a oedd newydd archwilio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) yn meddwl am gynnwys y prosiect fel astudiaeth achos yn ei adroddiad archwilio ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Cyn cloi'r drafodaeth dywedodd yr aelodau sut y mae'r 'diwylliant iawndal' ac unigolion yn ofnus o gael eu cyhuddo ar gam o drosedd nawr wedi gwneud pobl yn hynod o betrusgar o gynnig help llaw i bobl ddiamddiffyn, neu i blant, fel y byddai wedi digwydd flynyddoedd yn ôl. Roedd yn ymddangos fel pe bai gwedd cymdeithas gyfan yn ymddatod, gyda'r cysyniad o fod yn gymdogol a chefnogi pobl o fewn cymunedau'n erydu. Mae pobl y dyddiau hyn yn disgwyl i sefydliadau ddarparu gwasanaethau a ddarparwyd o fewn cymunedau yn y gorffennol, gwasanaethau sy'n lliniaru yn erbyn y risg o ynysu cymdeithasol ac unigrwydd.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

**PENDERFYNWYD** - yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith a wnaed hyd yn hyn a'r cynnig i barhau â'r gwaith hwn, ac yn argymhell bod y prosiect yn:-

- (i) ailedrych ar ei aelodaeth a'i amcanion i sicrhau bod dealltwriaeth ac ymrwymiad cyffredin gan bob partner i roi cynnig ar ddulliau creadigol a newydd a thrafod beth y gall ac na all pob asiantaeth ei wneud ac ati;
- (ii) ystyried cost peidio â gweithredu yn erbyn cost adfer y sefyllfa wrth benderfynu pa gamau gweithredu i'w cymryd;
- (iii) sicrhau bod eglurder ynghylch sut y gellir gweithredu ymyriad aml-asiantaeth i ychwanegu gwerth at achos ac os na fydd yn gweithio, pryd i roi'r gorau;
- (iv) ail-sefydlu matrices manwl, cofnodi camau gweithredu mwy disgrifiadol, gofyn yn rhagweithiol am enwebiadau, darparu enwau unigolion a enwebir cyn cyfarfodydd a sicrhau bod 20 o bobl wedi eu nodi a'u cytuno ar gyfer cefnogaeth;
- (v) ystyried cael cyllideb ar y cyd;

- (vi) yn sefydlu Protocol Rhannu Gwybodaeth sy'n cydymffurfio â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru i ddatrys rhwystrau rhannu gwybodaeth a datblygu ffurflen ganiatâd i'w defnyddio gydag unigolion;
- (vii) oherwydd ei broffil uchel yn deall sut y bydd yn rheoli ei negeseuon;
- (viii) gwerthuso'r dysgu o bob achos hyd yn hyn;
- (ix) gofyn i bob sefydliad roi caniatâd i'w cynrychiolwyr wneud penderfyniadau, defnyddio adnoddau a gwyro o'r polisi a'r arfer traddodiadol;
- (x) deall sut y gall yr hyn a ddysgir lywio ymyrraeth ac ataliad cynnar (mae'r themâu cyffredin yn cynnwys: unigrwydd ac ynysu cymdeithasol; camddefnyddio alcohol; rhwydweithiau cymunedol gwael; galw mawr gyda'r nos ac ar benwythnosau); ac
- (xi) mae angen i lywodraethu fod yn fwy cadarn.

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddisbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o 'ffurflen ar gyfer cynigion Aelodau' wedi ei chynnwys yn Atodiad 2, roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a'r cynnydd a wnaed o ran eu gweithrediad wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft o'i Raglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

26 Tachwedd 2015:-

- Cytunodd yr Aelodau fod eitem fusnes sy'n ymwneud â'r cynigion ar gyfer datblygu Ysbyty Cymunedol, Royal Alexandra, y Rhyl yn y dyfodol yn cael ei chynnwys yn rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod ym mis Tachwedd, a bod cynrychiolwyr BIPBC yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol.
- Eglurodd y Cydlynnydd Archwilio fod cadarnhad wedi ei dderbyn y bydd cynrychiolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn mynychu'r cyfarfod.
- Cytunodd y Pwyllgor y dylid gwahodd yr Aelodau Arweiniol priodol i fynychu'r cyfarfod ar 26 Tachwedd 2015 i gyflwyno eu hadroddiadau.

14 Ionawr 2016:-

- Roedd y Cadeirydd wedi cytuno i gais gan swyddogion fod yr adroddiad ar yr eitem fusnes sy'n ymwneud ag "Un Pwynt Mynediad" yn cael ei ohirio o'r cyfarfod presennol tan cyfarfod y Pwyllgor ar 14 Ionawr 2016. Byddai hyn yn galluogi cynnwys gwybodaeth am gais diweddar oedd yn ymwneud â'r Gweithlu Gofal Sylfaenol. Cytunodd yr Aelodau hefyd, ar ôl derbyn cais gan yr Aelod Arweiniol y Cyngorydd R L Feeley, y byddai'n fuddiol i gynnal y cyfarfod yn y Rhyl ac ymweld â staff Un Pwynt Mynediad.

Eglurodd y Cydlynnydd Archwilio fod y Cynghorydd W N Tasker wedi ymddiswyddo o'i swydd yn ddiweddar fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, ac roedd Cylch Gorchwyl y Grŵp wedi'i gynnwys fel Atodiad 5. Cytunodd yr Aelodau y dylid penodi'r Cynghorydd D. Owens i wasanaethu ar y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol fel cynrychiolydd y Pwyllgor , a bod y Cynghorydd M L Holland yn cael ei benodi fel dirprwy.

Cytunodd y Pwyllgor, yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd T M Parry fel aelod o'r Pwyllgor, y dylid oedi cyn ystyried penodi cynrychiolwyr ar y Grwpiau Herio Gwasanaethau Priffyrdd ac Addysg hyd nes penodi Aelodau ar gyfer y ddwy swydd wag ar y Pwyllgor.

Hysbyswyd yr Aelodau fod cyfarfod nesaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion wedi'i drefnu ar gyfer 15 Hydref 2015.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** - yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Waith fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.

## **8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10am.



# **Eich Gwasanaethau Chi Eich Dewisiadau Chi**

**YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR SUT I  
GYNNAL GWASANAETHAU TAN AC ACHUB  
RHAGOROL, FFORDDIADWY YNG NGOGLEDD  
CYMRU YN 2016-17 A THU HWNT**

**Yr Hydref 2015**

## CYNNWYS

|                                                             |    |
|-------------------------------------------------------------|----|
| Cyflwyniad                                                  | 3  |
| Trosolwg byr o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru         | 5  |
| Yr amcanion arfaethedig ar gyfer 2016-17                    |    |
| Amcan drafft 1                                              | 6  |
| Amcan drafft 2                                              | 7  |
| Amcan drafft 3                                              | 9  |
| Amcan drafft 4                                              | 15 |
| Beth ydych chi'n ei feddwl am ein syniadau ar gyfer gwella? | 16 |
| Ateb rhai cwestiynau                                        | 17 |

## CYFLWYNIAD

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn yn ymwneud â'r gwasanaethau tân ac achub a ddarperir yng Ngogledd Cymru. Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gwahodd unrhyw un â diddordeb i leisio eu barn ar sut ddylid datblygu'r gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Rydym oll yn deall bod llai o arian ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus i'w ddefnyddio nag y buasem yn ei hoffi, ond rydym yn derbyn nad yw'r sefyllfa'n debygol o wella am nifer o flynyddoedd. Bydd unrhyw un sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus yn gwybod pa mor anodd yw parhau i ddarparu gwasanaethau y mae pobl yn eu disgwyl pan nad yw'r arian ar gael.

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru rydym wedi mynd y tu hwnt i'r cyfnod o leihau costau mewnol, canfod dulliau o gwtogi ar wario a lleihau gwastraff. Mae ein cyllideb refeniw wedi ei llunio o gyfraniadau cynghorau sir. Mae arbedion yn golygu bod ein gwasanaethau nawr yn costio cyfwerth â £46 fesul pen o'r boblogaeth – yr un ag yn 2010-11. Ond rydym yn dal i orfod meddwl am faint o flynyddoedd y medrwn barhau gyda'r un lefel o gyfraniadau. Ac os bydd ein costau yn cynyddu, o ble daw'r arian?

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi gwneud gwaith hynod o ran lleihau'r galw am ei wasanaethau trwy ganolbwyntio ar rwystro tanau. Mae pobl yn llawer gwell nawr wrth osgoi tanau nag yr oeddynt hyd yn oed ddeng mlynedd yn ôl. Ond beth ddylai hynny ei olygu ar gyfer maint a phwrrpas y gwasanaeth tân ac achub yn y dyfodol? Mae pobl yn disgwyl ymateb mewn argyfwng pan fyddant ei angen, ond mae darparu gwasanaeth 'rhag ofn' yn costio arian.

Gall pobl ddechrau meddwl am danau yn eu hardaloedd daearyddol hwy, gan anghofio y byddant hefyd efallai angen gwasanaethau tân ac achub wrth ymweld ag ardaloedd eraill, neu wrth deithio. Fel Awdurdod ar gyfer Gogledd Cymru gyfan, rydym yn ymwneud â'r ardal lawn a'r boblogaeth lawn. Yn yr un modd, fel Awdurdod sy'n gweithio gyda darparwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, rydym yn cydnabod bod angen i ni chwarae ein rhan wrth leihau costau. Mae'n gydbwysedd anodd iawn ei gyflawni, ond rydym yn meddwl ein bod wedi cael ffordd o wneud yr union beth hwnnw – gofalu am boblogaeth gyfan Gogledd Cymru heb gostio ffortiwn.

Rydym yn gobeithio eich bod yn cytuno â ni, ond rydym eisiau gwybod os oes unrhyw beth arall nad ydym wedi ei ystyried a fyddai'n gwneud gwahaniaeth. Yn amlwg, byddwn hefyd yn croesawu eich sylwadau os ydych yn cefnogi ein cynlluniau.



# **TROSOLWG BYR O WASANAETH TAN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn un o dri awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Cafodd ei sefydlu ym 1996 i ddarparu gwasanaethau tân ac achub yn Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 28 o gynghorwyr sir etholedig sy'n cael eu henwebu gan eu cyngor sir eu hunain fel aelodau'r Awdurdod. Yn y swydd hon, disgwylir i'r Aelodau weithredu er budd gorau Gogledd Cymru gyfan, nid eu hardal sirol eu hunain.

Mae'r Awdurdod yn cymryd penderfyniadau ynglŷn â lefel y gwasanaethau tân ac achub a ddarperir yng Ngogledd Cymru, ac mae'n pennu ei gyllideb flynyddol i gyfateb â'r lefel honno o wasanaeth.

## **Pa wasanaeth y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ei ddarparu?**

- Addysg rhwystro tân a diogelwch cymunedol
- Ymateb "golau glas" i danau ac argyfyngau eraill
- Gorfodi diogelwch tân mewn eiddo an-nomestig
- Cynllunio ymateb i sefyllfaoedd argyfwng mawr a difrifol

## **Faint mae'n ei gostio i redeg gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru?**

Rhyw £32 miliwn y flwyddyn – yn cyfateb i £46 y flwyddyn ar gyfer pob un o drigolion Gogledd Cymru.

## **Pwy sy'n talu am Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru?**

Mae'r chwe chyngor sir yng Ngogledd Cymru yn cyfrannu tuag at gronfa ganolog a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tân ac achub.

## **Sut ydw i'n cymryd rhan yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn?**

Meddyliwch am effaith yr hyn rydym yn cynnig ei wneud, a gadewch i ni wybod eich barn **CYN 11eg Rhagfyr 2015**.

## YR AMCANION ARFAETHEDIG AR GYFER 2016-17


### Amcan Drafft 1 – Parhau gyda helpu i gadw pobl yn ddiogel rhag tanau yn eu cartrefi

Nid dyma'r tro cyntaf i ni fabwysiadu hyn fel ein hamcan cyntaf, ond mae gwneud hynny yn adlewyrchu'r pwysigrwydd a ddodwn ar yr agwedd hon o'n cyflenwad gwasanaeth.

Y lle y mae pobl yn fwyaf tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu gan dân yw yn y cartref. Dyma lle mae pobl yn ymlacio fwyaf ac yn lleiaf effro i berygl, a lle maent yn poeni leiaf am eu diogelwch eu hunain rhag tân. Maent yn syrthio i gysgu, mae pethau yn mynd â'u sylw, ac maent yn anghofio gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn. Mewn mannau gwaith ac adeiladau cyhoeddus, mae cyfreithiau sy'n gofyn i'r bobl sy'n gyfrifol am y mannau hynny gynllunio'n ffurfiol a lleihau perygl rhag tanau. Ond nid yw pobl yn tueddu i feddwl yn yr un ffordd ynglŷn â mesurau diogelwch tân yn y cartref.

Felly, er ein bod wedi cymryd camau arwyddocaol ymlaen ac wedi gweld gostyngiad mawr yn y nifer o danau sy'n digwydd mewn cartrefi, mae mwy i'w wneud o hyd. Ni hoffem weld cyfyngiadau ariannol yn ein rhwystro rhag parhau i ganolbwyntio ar helpu i gadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.

Yn 2016-17, felly, byddwn yn parhau i gadw diogelwch yn y cartref fel ein hamcan cyntaf a phwysicaf.



## Amcan Drafft 2 – Gweithio’n galed i wneud ein cyllideb fynd ymhellach fel nad oes angen i ni ofyn i’r cynghorau sir am gyfraniadau uwch

Rydym yn gwybod bod arian yn brin i redeg gwasanaethau cyhoeddus, a’r amcanestyniadau yw nad yw pethau’n debygol o wella am nifer o flynyddoedd. Rydym wedi gweithio’n galed i dorri gwariant trwy wneud arbedion lle mae hynny’n bosibl ac yn dod yn fwy effeithlon yn ein dull o wneud pethau.

Ariennir Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn bennaf gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru yn gymesur â’u poblogaeth. Mae’r gyllideb refeniw flynyddol ar hyn o bryd ychydig dan £32 miliwn.

| £                                    | Cyfraniad 2011/12 | Cyfraniad 2012/13 | Cyfraniad 2013/14 | Cyfraniad 2014/15 | Cyfraniad 2015/16 |
|--------------------------------------|-------------------|-------------------|-------------------|-------------------|-------------------|
| <b>Ynys Môn</b>                      | 3,236,545         | 3,219,270         | 3,216,231         | 3,198,669         | 3,200,523         |
| <b>Gwynedd</b>                       | 5,588,685         | 5,525,827         | 5,507,985         | 5,588,255         | 5,602,787         |
| <b>Conwy</b>                         | 5,240,568         | 5,206,959         | 5,198,570         | 5,283,704         | 5,289,891         |
| <b>Sir Ddinbych</b>                  | 4,549,039         | 4,569,316         | 4,593,630         | 4,342,155         | 4,360,740         |
| <b>Sir y Fflint</b>                  | 7,051,716         | 6,981,590         | 6,955,089         | 7,018,721         | 7,033,548         |
| <b>Wrecsam</b>                       | 6,266,101         | 6,269,049         | 6,300,506         | 6,340,507         | 6,398,354         |
| <b>CYFANSWM</b>                      | <b>31,932,654</b> | <b>31,772,011</b> | <b>31,772,011</b> | <b>31,772,011</b> | <b>31,885,843</b> |
| <b>Cost fesul pen o’r boblogaeth</b> | <b>£47</b>        | <b>£46</b>        | <b>£46</b>        | <b>£46</b>        | <b>£46</b>        |

Ar ôl rhewi ein cyllideb flynyddol am dair blynedd, sylweddolasom y llynedd y byddai’n rhaid i ni ei chynyddu rhyw ychydig. Fodd bynnag, rhoddwyd ymrwymiad i gynghorau sir Gogledd Cymru y buasem yn anelu at gyfyngu unrhyw gynnydd yn yr arian y gofynnwyd iddynt ei gyfrannu tuag at ein costau rhedeg i swm yn cyfateb i £1 fesul y pen o’r boblogaeth ar y mwyaf.

Mae’r ymrwymiad hwnnw yn parhau, ond gan ein bod yn cydnabod y pwysau ariannol sy’n wynebu’r cynghorau sir, rydym yn cynnig gwneud hyd yn oed yn well na hynny. Ein bwriad, trwy gynllunio gofalus, yw rhewi ein cyllideb flynyddol eleni am o leiaf dair blynedd arall. O bosib, gallai hynny ostwng cyfraniadau’r cynghorau sir i’r gwasanaethau tân ac achub i swm cyn ised â £45 fesul pen o’r boblogaeth – yr un fath ag yr oedd yn 2008-09.

Nid ydym yn disgwyl y bydd hyn yn hawdd ei gyflawni. Ar ôl torri £3 miliwn eisoes o’n costau rhedeg blynyddol, mae ein gallu i dderbyn cynnydd na ellir ei osgoi mewn costau yn y tair blynedd nesaf yn gyfyngedig. Rydym yn

amcangyfrif y gallai'r cynnydd hwn na ellir ei osgoi fod oddeutu £2 filiwn. Serch hynny, rydym yn cydnabod gwerth cefnogi gwasanaethau cyhoeddus rhagorol yng Ngogledd Cymru ac felly rydym eisiau cydweithio gymaint ag y bo modd er mwyn sicrhau diogelwch pobl Gogledd Cymru.

### **Amcan Drafft 3 – Dal i amddiffyn ein HOLL gymunedau, ond gyda gwell cynllunio**

Yn ôl yn 2012, fel rhan o'n hymgyngoriad blynyddol, gofynnwyd i chi a fyddai orau gennych:

- a) gadw gorsaf dân ar agor oherwydd ei bod yn agos at eich cartref, ond gan dderbyn na fyddai ar gael am nifer o oriau yr wythnos, neu
- b) gael gorsaf dân sydd bob amser yn barod i ymateb, ond gan dderbyn ei bod lawer o filltiroedd yn bellach i ffwrdd o'ch cartref.

Yr hyn roeddem yn dechrau ei thrin oedd problem hen system diffoddwyr tân rhan amser sy'n ei gwneud yn anodd denu a chadw digon o ddiffoddwyr tân rhan amser i ddarparu gwasanaeth, yn enwedig ar rai adegau yn ystod y dydd. Mae hyn oherwydd lefel yr ymrwymiad sydd ei angen (i aros o fewn 4 neu 5 munud o orsaf dân am hyd at 120 awr yr wythnos neu fwy) sy'n dod yn llai realistig ar adeg pan fo pobl yn tueddu i weithio a chymdeithasu i ffwrdd o lle maent yn byw.

Roeddem hefyd yn bryderus ynglŷn â'r gost, yr amser a'r ymdrech mae'n ei gymryd i reoli system ddyletswyddau anodd sydd â throsiant staff uchel, sy'n sylweddoli bod yn rhaid i'w prif gyflogaeth ddod yn gyntaf, neu lle mae pwysau'r ymrwymiad i'r gwaith yn ormod ar eu bywyd personol neu deuluol.

Er mai dim ond ychydig o bobl a ymatebodd yn 2012, roedd eich ymateb yn ddefnyddiol. Roedd y mwyafrif yn ffafrio'r ail opsiwn – cael gorsaf dân ymhellach i ffwrdd ond ar gael yn bendant – ond roedd teimlad o nerfusrwydd ynglŷn â'r hyn a olygid wrth 'nifer o filltiroedd i ffwrdd' a dim awydd i gau unrhyw orsafoedd tân. Roedd y syniad o fod 'ar gael yn bendant' yn apelio, ond ymddengys bod pobl angen mwy o wybodaeth cyn medru ein cefnogi ar yr agwedd 'yn bellach i ffwrdd'.

## **BETH SY’N DIGWYDD NAWR OS RWYF YN FFONIO 999?**

Mae eich galwad yn cael ei phasio ymlaen i weithredwr rheoli tân sy’n cymryd manylion y digwyddiad. Gan ddefnyddio rhaglenni mapio a chyfrifiadurol, bydd y gweithredwr yn adnabod y peiriant tân agosaf ac yn anfon manylion y digwyddiad i griw y peiriant tân hwnnw.

Os yw’r criw sy’n ymateb yn ddiffoddwyr tân llawn amser mewn gorsaf sydd ar shifft amser llawn, byddant yn ymateb ar unwaith. Mae gorsafoedd tân amser llawn yn Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a’r Rhyl.

Os yw’r criw sy’n ymateb yn ddiffoddwyr tân llawn amser mewn gorsaf gyda chriw dydd amser llawn, ac os yw’r alwad yn cyrraedd rhwng hanner dydd a 10pm byddant yn ymateb ar unwaith. Mae gorsafoedd tân gyda chriw amser llawn yn ystod y dydd ym Mae Colwyn, Llandudno, Caernarfon, Bangor a Chaerdybi.

Os yw’r criw sy’n ymateb yn ddiffoddwyr tân rhan amser neu yn ddiffoddwyr tân criw dydd rhwng 10pm a hanner dydd, byddant yn mynd i’r orsaf dân agosaf (gan anelu i wneud hynny mewn llai na 5 munud) ac yn gadael o’r fan honno. Mae gorsafoedd tân rhan amser mewn 36 o leoliadau ledled Gogledd Cymru, ac 8 peiriant tân arall yn bennaf wedi eu criwio gan staff wrth gefn wedi eu lleoli yn yr 8 gorsaf dân amser llawn a restrir uchod.

## O BLE MAE'R PEIRIANT TÂN YN DOD NAWR?

Mae 44 o orsafoedd tân yng Ngogledd Cymru, a 54 peiriant tân. Mae faint o'r peiriannau hynny sydd ar gael, fodd bynnag, yn amrywio o awr i awr yn dibynnu ar argaeledd diffoddwyr tân.

Am resymau diogelwch, rydym yn mynnu ar o leiaf bedwar diffoddwr tân i griwio peiriant tân. Os nad oes pedwar ar gael gyda'r sgiliau angenrheidiol a'r profiad o reoli, yna dywedir nad yw'r peiriant tân ar gael. Os ydym yn gwybod ymlaen llaw nad oes criw o bedwar diffoddwr tân rhan amser ar gael, efallai y byddwn yn anfon diffoddwr tân amser llawn i gwblhau criw cymysg os daw galwad i mewn, ond mae cyfyngiadau i ba mor aml y gall hynny ddigwydd.

Mae'r 9 peiriant tân yng Ngogledd Cymru a gaiff eu criwio gan ddiffoddwyr amser llawn bob amser ar gael oherwydd bod diffoddwyr tân amser llawn yn gweithio sifftiau penodol ac rydym yn gwybod ymlaen llaw eu bod ar gael. Mae'n bosib, serch hynny, eu bod yn mynychu digwyddiad arall pan ddaw galwad i mewn.

Efallai y bydd neu na fydd y 45 peiriant tân arall ar gael. Ni fedrwn warantu faint fydd ar gael ar unrhyw adeg. Nid yw'n anarferol i hanner ohonynt heb fod ar gael, a gall y sefyllfa hon weithiau fod cyn ised â 15 peiriant tân ar gael ar gyfer yr ardal gyfan.


Pam? Oherwydd ein bod yn dibynnu ar ddiffoddwyr tân rhan amser sydd ar gael i'w criwio, ac oherwydd natur 'rhan amser' eu contract gwaith gyda ni, rhaid iddynt ffitio eu hargaeledd i fynychu argyfwng o gwmpas eu prif gyflogaeth ac agweddau eraill eu bywyd beunyddiol.

Os bydd diffoddwr tân rhan amser penodol yn gwybod na fydd ar gael ac o fewn 4 neu 5 munud o'r orsaf dân, mae'n gadael i ni wybod er mwyn i ni fedru diweddarau'r system reoli. Felly, os nad yw'r dewis cyntaf o ran peiriant tân ar gael neu eisoes allan ar alwad arall, mae'r gweithredwr rheoli yn dewis y peiriant tân nesaf sydd ar gael.

**Felly, fel y mae pethau nawr, er y byddai aelod o'r cyhoedd yn gwybod lle mae'r orsaf dân agosaf, ni fyddai'n gwybod lle mae'r peiriant tân agosaf sydd ar gael adeg ei alwad.**

Rydym wedi gwranddo ar y sylwadau a dderbyniwyd yn 2012, ac rydym wedi datblygu ein meddylfryd ymhellach. Dadansoddwyd dosbarthiad risg ledled Gogledd Cymru, o ran amserau penodol a lleoliadau, ac yna ceisiwyd cyfateb y dosbarthiad hwnnw.

Roeddem eisoes yn gwybod bod mwyafrif digwyddiadau yn digwydd mewn ardaloedd gyda phoblogaethau uwch – nid oedd hynny'n syndod. Ond, pan ddadansoddwyd y *tebygolrwydd* o rywbeth yn digwydd – y risg – gwelwyd patrwm dosbarthiad gwahanol iawn. Pe buasem yn lleoli ein hadnoddau mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uchel yn unig, yna byddai hynny'n anwybyddu'r risg i unrhyw un sy'n byw, yn gweithio, yn ymweld neu'n teithio mewn ardaloedd eraill yng Ngogledd Cymru.



Felly, yn seiliedig ar yr egwyddor o fod angen amddiffyn y *cyfan* o Gogledd Cymru bob amser, nid yn unig yr ardaloedd gyda phoblogaeth breswyl uwch, ystyriwyd sut i ddsbarthu ein criwiau tân ac achub er mwyn cael yr effaith orau.

Sylweddolwyd nad oedd yr ateb yn gorwedd gyda'r gorsafoedd tân (h.y. yr adeiladau) ond gyda chynllunio a rheoli ein criwiau tân. Roeddem hefyd yn meddwl am sut y medrwn ddelio â phroblemau argaeledd criwiau rhan amser a gwelwyd bod cyfle i gadw gorsafoedd tân ar agor ond grwpio gyda'i gilydd y criwiau sy'n gweithio ohonynt er mwyn medru bod yn fwy sicr ynglŷn ag argaeledd o leiaf un criw tân mewn ardal.



Roeddem hefyd eisiau sicrhau ein bod yn cymryd i ystyriaeth y gwahaniaethau mewn proffil risg ar wahanol adegau. Mae llawer o bobl allan yn y gwaith neu'r ysgol yn ystod y dydd, ac mae'r sawl sydd yn eu cartrefi fel rheol yn effro ac yn wyliadwrus. Ar adegau eraill, mae mwy o bobl yn y cartref, ac maent yn tueddu i ymlacio mwy a bod yn llai gwylidwrus. Fel y disgrifiwyd ar gyfer Amcan 1, dyma pryd y mae'r risg yn cynyddu, pan fo pobl adref ac yn ymlacio. Felly, gweithiwyd allan, tra gallai 20 'grŵp criwio' wasanaethu'r ardal mewn cyfnodau o risg cymharol is, byddai 38 'grŵp criwio' yn lefel ddarpariaeth lawer gwell ar gyfer amserau pan fo'r risg yn gymharol uwch.

## **BETH FYDDAI'N DIGWYDD YN Y DYFODOL PE BAWN YN FFONIO 999?**

Byddai eich galwad yn dal i gael ei phasio i'r gweithredwr rheoli, a fyddai'n cymryd manylion y digwyddiad. Byddai'r gweithredwr rheoli yn dal i adnabod y peiriant/peiriannau tân agosaf sydd ar gael, ac anfon manylion y digwyddiad i aelodau'r criw.

Byddai argaeledd diffoddwyr tân rhan amser yn dal i amrywio, ond trwy ddefnyddio'r 'grwpiau criwio' byddai gennym lawer mwy o reolaeth dros sicrhau y byddai o leiaf 20 peiriant tân gyda chriw llawn ar gael ac wedi eu dosbarthu'n strategol ledled Gogledd Cymru ar adegau o risg is, ac o leiaf 38 o beiriannau tân gyda chriw llawn ar adegau o risg uwch. Byddai hyn yn welliant mawr iawn.

Byddai angen i ddiffoddwyr tân rhan amser unigol adael i ni wybod o hyd pan na fyddent ar gael neu allan o gyrraedd gorsaf dân er mwyn i ni fedru cadw llygad ar ba beiriannau tân y gellid eu hanfon. Ond trwy fod yn rhan o'r 'grwpiau criwio' newydd, dylent ganfod ei bod yn haws iddynt gael gwell cydbwysedd rhwng eu hymrwymiad i'r gwasanaeth tân a'u hymrwymadau eraill.

Gyda chyflwyniad cyfarpar hysbysu newydd, modern, mae gennym y gallu i ganiatáu i ddiffoddwyr tân weithio'n fwy hyblyg, fel na fyddent wedi eu cyfyngu i ymateb o un gorsaf dân benodol. Mae diffoddwyr tân llawn amser a rhan amser yn gweithio'n rheolaidd gyda'i gilydd fel rhan o'r un criw. Byddwn yn parhau i fynnu cael o leiaf pedwar diffoddwr tân i fynd â pheiriant tân allan (am resymau diogelwch) ond byddai mwy o gyfle i ddyrannu unrhyw ddiffoddwyr tân ychwanegol i griwio peiriannau tân eraill – mwy na thebyg yn yr un grŵp criwio ond efallai mewn un cyffiniol. Ar hyn o bryd, gall y broses fod yn un eithaf gwastraffus o ran yr adnoddau sydd ar gael. Er enghraifft, os oes naw diffoddwr tân rhan amser ar gael, gallai'r pedwar neu'r pump olaf i gyrraedd yr orsaf dân gyrraedd mewn pryd i weld i peiriant yn gyrru i ffwrdd. Os yw hyn yn digwydd dro ar ôl tro, gall diffoddwyr tân deimlo'n rhwystredig a siomedig oherwydd eu bod yn colli'r cyfle i roddi eu hyfforddiant ar waith.

**Yn y dyfodol, byddai aelod o'r cyhoedd yn gwybod bod o leiaf ugain o beiriannau tân ar gael ar adegau o risg is ac o leiaf tri deg wyth ar gael ar adegau o risg uwch.**

**Efallai na fyddai'r peiriant tân yn dod o'r orsaf agosaf, o reidrwydd, ond ni fyddai hynny'n wahanol i nawr. Y sicrwydd ychwanegol yw beth sy'n gwneud y cynnig hwn gymaint yn well na'r trefniadau presennol.**

## **Amcan 4 – Ystyried y posibilrwydd o wneud mwy bethau ar ran ein cymunedau**

Dros y blynyddoedd, mae'r gwasanaeth tân ac achub wedi gweddnwied ei hun yn llwyddiannus iawn yn sefydliad sy'n gwneud llawer mwy o waith atal tân ynghyd â'i waith yn ymateb i danau ac argyfwng. Ond gallai wneud mwy. Mae rhai awdurdodau tân ac achub mewn rhannau eraill o Brydain eisoes wedi dechrau arallgyfeirio trwy, er enghraifft, ymateb ar y cyd gyda'r gwasanaeth ambiwlans ac ehangu eu gwaith i helpu pobl i aros yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain y tu hwnt i gynghori ar ddiogelwch tân yn unig.

O ystyried ein llwyddiant wrth leihau'r galw i ddiffodd tanau, rydym yn meddwl bod yr amser yn briodol i arolygu'r hyn y medrwn ei ychwanegu at y rhestr o wasanaethau a ddarperir gennym. Rydym eisiau sicrhau ein bod ar gael i ymateb i unrhyw argyfwng tân neu achub, ond hoffem ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym mor gynhyrchiol ag y medrwn trwy helpu i gadw ein cymunedau yn ddiogel rhag mwy na tân yn unig. Ar adeg pan fo gwasanaethau cyhoeddus dan straen, ymddengys mai dyma'r peth iawn i'w wneud. Mae hefyd yn gwneud synnwyr i ni o leiaf ystyried sut medrwn gefnogi rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, wrth i ni oll fod ag uchelgais cyfunol i helpu i ofalu am ein cymunedau lleol.



## **BETH YW EICH BARN CHI AR EIN SYNIADAU AR GYFER GWELLA?**

Bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyflwyno amcanestyniad o'i lefel ofynnol o gyllid ar gyfer 2016-17 i'r cynghorau sir yng Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2015, ac yn cadarnhau'r ffigwr terfynol erbyn canol Chwefror 2016.

Hoffem gael ein cynlluniau yn barod ar gyfer dechrau blwyddyn 2016-17, ond cyn i ni gymryd ein penderfyniadau terfynol, hoffem gael gwybod beth mae pobl yn ei feddwl am ein cynigion. A yw'r Awdurdod yn iawn yn cadw rhwystro marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân fel ei amcan cyntaf? A yw'n realistig disgwyl iddo gadw ei gyllideb yn isel AC ehangu amrediad y gwasanaethau a gynigir ganddo? A fuasech chi'n cefnogi'r grwpiau criwio newydd rydym yn cynnig eu cyflwyno? Os na, pam hynny?

### **Anfonwch eich sylwadau cyn 11eg Rhagfyr 2015:**

#### **Drwy'r post at:**

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru  
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub  
Ffordd Salesbury  
Parc Busnes Llanelwy  
Llanelwy  
Sir Ddinbych, LL17 0JJ

#### **Ar ebost at:**

[futurefire@nwales-fireservice.org.uk](mailto:futurefire@nwales-fireservice.org.uk)

#### **Gallwch hefyd ymweld â**

[www.nwales-fireservice.org.uk](http://www.nwales-fireservice.org.uk)

Twitter @northwalesfire

[www.facebook.com/northwalesfireservice](http://www.facebook.com/northwalesfireservice)

#### **Drwy gwblhau'r holiadur:**

<http://goo.gl/kK5iwZ>



## **ATEB RHAI CWESTIYNAU**

### **C. Lle fydd fy ngorsaf dân agosaf?**

Nid ydym yn cynnig cau unrhyw orsafoedd tân, felly bydd eich gorsaf agosaf lle mae nawr.

Fel sy'n digwydd eisoes, caiff y criw(iau) agosaf sydd ar gael eu hanfon i ddigwyddiad, ond yr hyn rydym yn ei gynnig yw cael system a reolir yn well yn seiliedig ar gael o leiaf 20 criw tân wedi eu lleoli yn strategol ac ar gael ar adegau o risg is, a 38 o griwiau tân wedi eu lleoli yn strategol ac ar gael ar adegau o risg uwch.

O gymharu â'r hyn sydd ar gael nawr, mae hynny yn cynrychioli gwelliant arwyddocaol.

### **C. Pam na wnewch, yn syml, gau rhai gorsafoedd tân?**

Mae nifer o resymau pam nad ydym wedi dewis y llwybr hwn. Yn gyntaf, nid cynnal a chadw'r adeilad yw'r brif gost – y prif gostau yw cyflogi staff. Felly ni fyddai cai gorsafoedd tân yn arbed rhyw lawer o gwbl o ran costau refeniw. Yn ail, rydym yn gweld y gorsafoedd tân eu hunain fel asedau cymunedol y gellid eu datblygu fel bod sefydliadau cyhoeddus neu wirfoddol eraill yn medru rhannu'r lle gyda ni. Ac yn drydydd, mae'r gorsafoedd tân presennol yn rhoi hyblygrwydd i ni symud ein criwiau o gwmpas i newid proffiliau risg. Ymhen amser, efallai y bydd yn rhaid i ni ailystyried, ond nawr mae'n gwneud synnwyr i ni gadw'r 44 gorsaf ar agor.

### **C. Os oes yn rhaid i'r peiriant tân ddod o ymhellach i ffwrdd, sut medrwnch ddweud bod hynny'n welliant?**

Bu wastad yn wir, os nad yw'r peiriant tân yn yr orsaf dân agosaf ar gael, neu allan ar alwad arall eisoes, yna byddai'r nesaf agosaf sydd ar gael yn cael ei anfon. Mae pobl wedi medru gweld yr orsaf dân a'r peiriant tân ac wedi tybio'n anghywir y byddai criw o ddiffoddwyr tân ar gael i'w griwio pe byddai angen.

Mae pa mor bell y mae'r peiriant tân agosaf nesaf yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys dosbarthiad gorsafoedd tân, y rhwydwaith ffyrdd lleol, y galw yn yr ardal ar yr un pryd, ac argaeledd diffoddwyr tân unigol gyda'r cyfuniad priodol o sgiliau a phrofiad rheoli i lunio criw tân diogel, gweithredol.

Byddai'r gwelliant yn deillio o gael gwell rheolaeth dros argaeledd criwiau tân. Dan y cynigion newydd hyn byddem yn medru cadw 20 criw tân wedi eu lleoli'n strategol ac ar gael ar adegau risg is, a 38 ar gael ar adegau o risg uwch.

### **C. Mae gwasanaethau eraill yn canoli eu hadnoddau fel ffordd o dorri costau – pam nad yw'r gwasanaeth tân ac achub yn gwneud yr un fath?**

Rydym yn gwybod ein bod yn mynychu mwy o ddigwyddiadau mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth uchaf, ond rydym eisiau amddiffyn Gogledd Cymru gyfan, nid y trefi mwy yn unig. Pan ymgwymerwyd ag asesiad o risg ar draws yr ardal gyfan, dangosodd bod ardaloedd o risg cymharol uwch wedi eu dosbarthu ledled Gogledd Cymru, a bod y proffil risg ar gyfer gwahanol ardaloedd yn newid. Oherwydd hyn rydym eisiau cadw'r hyblygrwydd i ymateb i lefelau risg amrywiol, a chyn belled ag y bo modd, trefnu ein criwiau tân i gyfateb â lefel y risg.

### **C. Pam nad ydych yn cyflogi mwy o ddiffoddwyr tân rhan amser?**

Nid yw cyflogi mwy, yn syml, yn datrys y broblem os nad yw'r diffoddwyr tân hynny ar gael 'chwaith. Mewn rhai ardaloedd, mae pobl yn teithio milltiroedd o'u cartref i'w gwaith, gan eu lleoli yn rhy bell i ffwrdd o'u gorsaf dân benodol hwy i aros 'ar gael'. Mewn rhai ardaloedd, mae proffil y boblogaeth leol yn golygu, er gwaethaf ein hymdrechion i recriwtio pobl fel diffoddwyr tân rhan amser, nad ydym wedi denu digon o ddiddordeb gan bobl sy'n medru pasio'r profion ffitrwydd llym a phrofion eraill. Hefyd, yn rhy aml, mae diffoddwyr tân yn gadael oherwydd y bu newidiadau yn eu prif gyflogaeth sy'n golygu na fedrent fod ar gael bellach pan rydym eu hangen. Felly, hyd yn oed pan rydym wedi medru recriwtio a hyfforddi pobl, rydym yn gweld trosiant staff uchel.

### **C. Pam nad ydych yn cyflogi mwy o ddiffoddwyr tân amser llawn?**

Byddai cyflogi mwy o ddiffoddwyr tân llawn amser yn datrys y broblem o argaeledd, ond byddai'n anodd iawn cyfiawnhau cost cynyddu cyfanswm y nifer a gyflogir ar adeg pan fo gwasanaethau cyhoeddus dan bwysau ariannol.

Rydym wedi bod yn treialu contractau dyletswydd cyflawn rhan-amser newydd fel opsiwn amgen i'r contractau dyletswydd rhan amser presennol a gobeithiwn barhau i ystyried contractau mwy cynaliadwy a fforddiadwy yn y dyfodol.

### **C. Onid gostyngiad yw hyn yn safon y gwasanaeth rwy'n ei dderbyn?**

Na. Dylai'r pedwar cynnig roddi sicrhad i'r cyhoedd y byddwn yn:

1. Parhau i roddi'r pwyslais ar eu diogelwch trwy helpu i rwystro marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân;
2. Chwarae ein rhan wrth helpu cynghorau sir yn eu cynllunio ariannol ar adeg o gyllidebau sector cyhoeddus tynn;
3. Cadw gorsafoedd tân ar agor a gwella argaeledd criwiau tân;
4. Canfod dulliau o wneud hyd yn oed mwy o bethau, gwahanol, i wella diogelwch y cyhoedd.

At hyn, byddwn yn parhau i gadw at y saith ymrwymiad a wnaed eisoes yn ein Siarter Ymateb i Danau mewn Tai Anedd, sef:

1. Arwain at leihau nifer y tanau mewn tai annedd sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Adweithio'n gyflym ac effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad argyfwng 999 i fynychu tân mewn tŷ annedd.
3. Mynychu tanau mewn tai annedd yn gyflym, a chyda'r cyfarpar priodol i ddelio â nhw.
4. Delio â thanau mewn tai annedd yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.
5. Helpu adfer normalrwydd i gymunedau ar ôl tân mewn tŷ annedd.
6. Archwilio achosion tanau mewn tai annedd a dal pobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.



|                                   |                                                                                                                              |
|-----------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Archwilio Partneriaethau</b>                                                                                     |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>26 Tachwedd 2015</b>                                                                                                      |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal<br/>Cymdeithasol Oedolion a Phlant/Pennaeth<br/>Gwasanaethau Cymorth Cymunedol</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Rheolwr Gwasanaeth: Gwasanaethau Arbennigol/<br/>Cydlynnydd POVA</b>                                                      |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Adroddiad Blynyddol ar Amddiffyn Oedolion 2014/15</b>                                                                     |

## 1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adroddiad perfformiad blynyddol ar Amddiffyn Oedolion yn unol â chanllawiau statudol ac mae'n darparu trosolwg o effaith trefniadau ac arferion lleol er mwyn diogelu ac amddiffyn oedolion lleol.

## 2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Rhoi trosolwg i'r Aelodau o effaith trefniadau ac arferion lleol er mwyn diogelu ac amddiffyn oedolion. Adolygu cynnydd yn y maes allweddol o waith yma dros y deuddeg mis diwethaf. Cyfeirio at ddata sy'n adlewyrchu ffigurau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Lleol yn flynyddol i'r Uned Ddata Llywodraeth Cymru.

## 3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr Aelodau'n derbyn ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad a chydabod natur bwysig ymagwedd gorfforaethol at Amddiffyn Oedolion a chyfrifoldeb y Cyngor i weld hyn fel maes blaenoriaeth allweddol ac i'w osod ochr yn ochr â'r ymrwymiad a'r arwyddocâd a roddwyd gan Sir Ddinbych i Amddiffyn Plant.

## 4. **Manylion yr Adroddiad**

4.1 Y ddogfen bolisi allweddol presennol o ran Amddiffyn Oedolion Sir Ddinbych yw Polisi Dros Dro Cymru a Gweithdrefn ar gyfer Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn, sy'n llywio ymarferion wrth ymateb i gam-drin honedig neu achos pendant o 'oedolion sy'n ddiamddiffyn'. Drafftwyd y polisi hwn o ganllawiau 'Mewn Dwylo Diogel' ac fe'i diwygiwyd ym mis Ionawr 2013 er mwyn sicrhau bod y ddogfen yn berthnasol ac yn unol â newidiadau deddfwriaethol ers ei lunio gyntaf ym mis Tachwedd 2010. (Mae Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ( Deddf Cymru) 2014 yn ymwneud â diogelu, a bydd ei weithredu ym Ebrill 2016 yn arwain at bolisiau a gweithdrefnau diwygiedig trwy Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.)

4.2 Mae 'Mewn Dwylo Diogel' yn datgan bod gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb dros gymryd rôl arweiniol wrth amddiffyn oedolion diamddiffyn. Nid yw hyn yn lleihau rôl yr asiantaethau partner a fydd yn parhau i ymgymryd â'u cyfrifoldebau priodol i ymateb i amheuan, honiadau neu achosion o gam-drin fel y disgrifir yn y gweithdrefnau hyn, a lle y bo'n briodol, i drefnu cefnogaeth a / neu ofal i'r bobl fwyaf diamddiffyn yn y gymuned. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn amddiffyn oedolion diamddiffyn.

4.3 Mae oedolyn diamddiffyn yn berson dros 18 oed 'sydd angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, henaint neu salwch ac

sy'n methu gofalu am ei hun, neu'n methu amddiffyn ei hun rhag niwed sylweddol neu ecsbloetio difrifol'.

- 4.4 Diffinnir cam-drin fel 'trosedd yn erbyn hawliau dynol a sifil unigolyn gan unrhyw berson arall'. (mae'r diffiniadau hyn yn newid o dan Ran 7 o Ddeddf SSWB 2014).
- 4.5 Gweithgarwch Amddiffyn Oedolion yn Sir Ddinbych 2014 - 2015

| Blwyddyn    | Atgyfeiriadau a dderbyniwyd ac a ymchwiliwyd iddynt |
|-------------|-----------------------------------------------------|
| 2012 - 2013 | 280                                                 |
| 2013 - 2014 | 298                                                 |
| 2014 - 2015 | 354                                                 |

Gweler Atodiad 1 am ddadansoddiad o'r data Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn 2014-15

- 4.6 Dim ond un dangosydd perfformiad cenedlaethol sy'n ymwneud ag Amddiffyn Oedolion: nifer yr achosion lle mae'r risg wedi ei reoli neu ei ddileu. Rydym yn parhau i gredu bod hwn yn darged pwysig gan ei fod yn dangos sut mae Sir Ddinbych yn ei chyfarwydd yn diogelu'r mwyaf diamddiffyn yn y gymuned. Yn 2014-15 rydym wedi cynnal canlyniad 100% pan fo'r perygl wedi ei ddileu neu ei leihau/reoli gyda chynlluniau Amddiffyn Oedolion Unigol.
- 4.7 Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn rhoi Amddiffyn Oedolion ar sail statudol am y tro cyntaf ac yn cynnwys datblygu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a phenodi y Panel Arbenigol.
- 4.8 Mae Gogledd Cymru wedi mabwysiadu dull dwy haen i oruchwylio diogelu oedolion mewn perygl o niwed sy'n adlewyrchu'r ymagwedd ranbarthol tuag at ddiogelu plant. Mae gan Sir Ddinbych a Chonwy Grŵp Cyflawni Lleol ar y Cyd sy'n adrodd i Fwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol.
- 4.9 Cyhoeddwyd canllawiau newydd fis Rhagfyr diwethaf i ddisodli'r trefniadau ar gyfer Adolygiadau Achosion Difrifol fel y'i cofnodwyd yn y polisi a'r gweithdrefnau dros dro. Mae'r model newydd yn defnyddio Adolygiadau Ymarfer Plant presennol ond mae wedi cael ei newid / addasu ar gyfer Oedolion. Rydym bellach yn aros am y canllawiau terfynol ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion.
- 4.10 **Mae'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i bobl ddiamddiffyn sydd, neu a allai gael ei amddifadu o'u rhyddid o fewn ystyr Erthygl 5 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn ysbyty neu gartref gofal.**
- 4.11 Diwygiodd dyfarniad y Goruchaf Lys ar 19/3/14 y prawf mewn perthynas â cholli rhyddid at ddibenion Erthygl 5 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Roedd y dyfarniad yn sbardun i gynnydd sylweddol mewn gweithgarwch Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn genedlaethol. Yn Sir Ddinbych cawsom 214 o geisiadau am Awdurdodi Safonol yn ystod 2014-15, ac fe gymeradwywyd cyfanswm o 40 o awdurdodiadau. Ar gyfartaledd, derbyniwyd 15 o geisiadau blynyddol mewn blynyddoedd blaenorol.

4.12 Daeth ymgynghoriad ar Galluedd Meddyliol a Colli Rhyddid dan arweiniad Comisiwn y Gyfraith i ben ddechrau mis Tachwedd 2015. Disgwylir adroddiad yn seiliedig ar yr ymgynghoriad y flwyddyn nesaf gydag argymhellion ar gyfer diwygio

4.13 Mewn ymateb i'r cynnydd sylweddol yn y llwyth gwaith, mae'r camau gweithredu canlynol wedi eu cymryd:

- Mae 13 o ymarferwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant asesydd lles gorau gofynnol yn llwyddiannus er mwyn cynyddu nifer y staff sydd ar gael.
- Mae swydd weinyddol bwrpasol (18.5 awr) wedi ei chreu o fewn yr adnoddau presennol.
- Mae swydd uwch ymarferydd newydd gydag arweiniad ar Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid i gael ei benodi i gefnogi rheolaeth y broses Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn y dyfodol

4.14 Y canlynol yw'r prif feysydd o bwysau:

- Maint y gwaith a chadw at amserlenni
- Cost meddygon adran 12 (mae pob asesiad yn costio £174)
- Cydymffurfio â'r dyfarniad mewn perthynas ag unigolion sy'n byw yn y gymuned, pan fo angen cais i'r Llys Gwarchod. Mae cost ychwanegol yn yr achosion hyn hefyd.

4.15 Fe lansiodd y model diogelu presennol ym mis Mehefin 2013 gyda rheolwyr tîm ardal ac uwch ymarferwyr yn ymgymryd â Rôl Rheolwr Arweiniol Dynodedig ochr yn ochr â'r cydlynnydd Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn. Mae'r model newydd wedi wynebu heriau, gan fod rhai staff wedi cael trafferth addasu i'r rôl newydd ac mae hyn wedi cael ei amlygu gan AGGCC yn Adroddiad Blynnyddol 2014/15.

| Mater                                                                                           | Cam gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Amseroldeb a diffyg cysondeb yn y broses ddiogelu                                               | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparwyd Hyfforddiant Diogelu i Reolwyr Arweiniol Dynodedig.</li> <li>• Prosesau SPOA diwygiedig wedi galluogi sgrinio mwy effeithiol a chadarn o atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn.</li> <li>• Mae swydd newydd Rheolwr Tîm Diogelu wedi'i greu i ddarparu cefnogaeth broffesiynol ychwanegol i Reolwyr Arweiniol Dynodedig a gwella'r broses gyfan.</li> <li>• Mae Adolygiad Cymheiriaid wedi ei gynnal gyda Chonwy er mwyn sicrhau bod gennym farn allanol o'n prosesau ac mae hyn yn cael ei fonitro drwy'r grŵp Cyflawni Diogelu Oedolion Lleol sy'n cynnwys yr holl bartneriaid perthnasol gan gynnwys lechyd a'r Heddlu.</li> </ul> |
| Asiantaethau perthnasol ddim yn rhan bob amser, yn enwedig mewn trafodaethau strategaeth gynnar | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Heddlu wedi canmol Sir Ddinbych am ein harfer wrth sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys ym mhob atgyfeiriad Amddiffyn Pobl Ddiamddiffyn ac wedi mabwysiadu ein gweithdrefn ar draws Gogledd Cymru.</li> <li>• Cynhaliwyd trafodaethau gyda BCU ynghylch unrhyw bryderon sydd ganddynt, a nid oeddynt yngallu adnabod unrhyw achosion ble y bu pryderon. Fodd bynnag, rydym wedi llunio prosesau i sicrhau eu bod yn glir ar eu llwybrau cyfathrebu gyda ni.</li> </ul>                                                                                                                                                                              |
| Diffyg hyder y rheolwyr blaen dynodedig                                                         | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynhaliwyd hyfforddiant Diogelu ar gyfer Rheolwyr Arweiniol Dynodedig a chomisiynwyd hyfforddiant penodol ar reoli'r Cyfarfodydd Strategaeth.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
| Mae hefyd angen eglurder ynghylch trothwy'r cyngor ar                                           | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rydym wedi mabwysiadu offeryn trothwy cenedlaethol ar gyfer atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn sydd wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus mewn Awdurdodau Lleol eraill yng</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |

|                                                                   |                                                                                                       |
|-------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| gyfer derbyn neu wrthod atgyfeiriadau Amddiffyn Pobl Ddiamddiffyn | Nghymru. Mae hyn yn sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â throthwy ar gyfer archwiliad. |
|-------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|

4.17 Mae adroddiad Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn Nghymru, 2013-14 yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol o gasgliad data Diogelu Oedolion Diamddiffyn ar gyfer cyfnod 1 Ebrill - 31 Mawrth 2014. Dyma'r ail gasgliad data blynyddol gan ddefnyddio'r canllawiau diwygiedig ac mae'n disodli'r ystadegau a gyhoeddwyd yn flaenorol yn adroddiad monitro ar amddiffyn oedolion Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Canlyniadau cenedlaethol allweddol:

- Cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau a gwblhawyd a adroddwyd gan 18% rhwng 2012-13 a 2013-14.
- Esgeulustod a cham-drin corfforol oedd y math mwyaf cyffredin o gam-drin a adroddwyd, gan ddigwydd 31% a 27% yn y drefn honno.
- Roedd 63% o'r atgyfeiriadau a gwblhawyd ar gyfer merched ac roedd 66% ar gyfer pobl 65 oed a throsodd.
- Roedd 34% o'r dioddefwyr oedd yn honni camdriniaeth yn byw yn eu cartrefi eu hunain.
- Staff oedd yn fwyaf tebygol o fod yn gyfrifol am gyflawni camdriniaeth yn 2013-14 (56% o atgyfeiriadau) ac yna perthnasau (23%).

#### 5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae trefniadau Bwrdd Diogelu Oedolion Diamddiffyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y flaenoriaeth gorfforaethol i ddiogelu pobl ddi-amddiffyn i'w galluogi i barhau i fyw yn annibynnol.

#### 6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r gweithgaredd cynyddol mewn perthynas â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn debygol o greu pwysau ar y gyllideb. Mae hyn yn cael ei fonitro'n agos.

#### 7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gan nad yw'r adroddiad hwn yn gwneud unrhyw newid i bolisi.

#### 8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Ddim yn Berthnasol

#### 9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd y goblygiadau cost yn cael eu hadolygu a'u hystyried fel rhan o broses y gyllideb barhaus.

#### 10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**


Mae'r model cyflwyno sy'n rhannu rôl a chyfrifoldebau'r Rheolwr Arweiniol Dynodedig gyda rheolwyr tîm ac uwch ymarferwyr yn cyflwyno her i sicrhau cysondeb o ran ymagwedd ac ansawdd wrth ddelio ag atgyfeiriadau diogelu. Mae datblygu swydd uwch ymarferydd – yn arwain Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn ogystal â

swydd Rheolwr y Tîm Diogelu yn sicrhau trosolwg mwy cadarn o'r broses ddiogelu gyfan.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**



Mae pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u gosod yn Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Erthyglau 6.3.2(a) a 6.3.4(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Total number of completed referrals, year ending March 2015**

Women remain the highest category for being the alleged victims of abuse. Males aged 18 – 64 years old have remained the second highest category within Denbighshire. However there has been a 9% decrease in males aged over 65 years compared to last year's data. Recent data shows that categories can rise and fall year on year, we will need to monitor this over the next 12 months. As with previous trends across Wales, women aged over 65 has increased; we have experienced a 7% rise in this category compared with last year's data.

### Main category of vulnerability




In 49% of female cases the victim was aged 65 plus and 14% were under 65%.


Females aged over 65 remains the highest category of vulnerability, with organic mental health and learning disability being the next highest categories recorded in the recent report from 2015. Here in Denbighshire we continue to see learning disability under 65's being our second highest category which could be attributed to the specialised providers within our area who support young males in both residential/ independent hospitals. As this provider grows and expands there is the potential for an increase in adult protections referrals if current trends prevail.




## Types of abuse




Current figures show that neglect is the most commonly referred concern in 2013 – 2014 (36%). This is followed by physical abuse (32% of closed referrals). Denbighshire followed this trend in 2013 – 2014. However in 2014 – 2015 we have seen physical abuse increase by 5% making this the lead referral of concern. The national trend indicates this is a common occurrence between these two categories, exchanging positions in 2013 – 2014 where physical abuse was the highest concern.




Types of abuse - females aged 18 - 64 years old



Types of abuse - males aged 65 years old plus






On our previous data neglect remains the highest category of concern for males over the age of 65. Whilst females aged over 65 has seen a 9.9% increase in allegations of physical abuse placing it slightly ahead of neglect.


## Place alleged abuse occurred

The 2015 All Wales report on data of 2013 – 2014 continues to show that alleged abuse was more likely to occur in the vulnerably adults own home in the community, accounting for 34% of all locations cited, or care homes (nursing and residential homes) accounting for 36%.

In 2013 – 2014 we showed a 12% increase from own home in the community to care home – residential as the leading area where alleged abuse occurred. Now in 2014 – 2015 our data supports a 6% decrease in residential setting but an increase of 21% for nursing home care. This could be attributed to increasing nursing placements due to more complex needs of the service user, therefore making them vulnerable and at risk of possible abuse. Another factor could be the high number of nursing /residential beds within the county, being utilised by other counties. There has been an increase of 3% within own home. Whilst this is more encouraging to see further reports/ referrals have been made, we continue not to follow the national trend. Perhaps identifying that more awareness and training is still required to help identify abuse within the community.




Person alleged responsible for abuse



63% of staff were alleged to be responsible for the abuse, of which, 50% were from the independent sector, not surprising as this was the highest category where alleged abuse occurred. The next highest category combined was relative, friend or acquaintance at 22%. Current data supports that Denbighshire is following the national trend with 56% involving staff being the highest category followed by relatives at 23%.

Tudalen 46


## Status of allegation



Current national trends show a 25% increase in proven allegations in 2013 – 2014. Denbighshire have also shown an increase in the percentage of proved allegations in 2013 – 2014; we have had 22% of proved abuse allegations. This has increased by 8% making this the highest percentage regarding outcome, closely followed by likely on the balance of probability. This could be a result of investigation having clearer terms of references being discussed during the strategy meeting process.

Inconclusive remains the second highest outcome and this appears to be the trend across Wales. Although not an ideal outcome, further safeguarding action should reduce the risk of further abuse to the individual.

## Outcome for person alleged to be responsible



There has been an increase from 2013 – 2014 of 4.39% in extra training for 2014 – 2015. We have seen an increase in staff being dismissed from 5.46% in 2013 – 2014 to 9.9% in 2014 – 2015 which could suggest that safeguarding is high on the agenda for employers. Prosecution remains low, as it does across Wales, perhaps demonstrating that the threshold to be referred to the CPS is somewhat higher than required for the adult protection process. However there is a genuine multi agency approach when dealing with adults at risk between North Wales police and the Denbighshire Adult Protection Team.




## Outcome for service provider

We have seen a change over the years where the most common action was not applicable, possibly as no abuse may have been found, or that there was not an identified staff member. However a positive outcome is that lessons are learnt and policies are revised to improve safeguarding strategies within organisations.

Continuing with this trend within Denbighshire; this is now the highest percentage at 35.52% showing that providers are reviewing their policies and procedures, increasing by 20.75% in 2014 – 2015.

Working closely with CSSIW and Denbighshire County Council's Contract and Commissioning Team further strengthens the measures required to improve safeguards within the county.



Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                            |                                          |
|----------------------------|------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>      | <b>Pwyllgor Archwilio Partneriaethau</b> |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b> | <b>26 Tachwedd 2015</b>                  |
| <b>Swyddog Arweiniol:</b>  | <b>Cydlynnydd Archwilio</b>              |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b> | <b>Cydlynnydd Archwilio</b>              |
| <b>Teitl:</b>              | <b>Rhaglen Waith Archwilio</b>           |

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn cyflwyno drafft rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau i'r aelodau ei hystyried.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen waith i'r dyfodol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn:

- 3.1 ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn cymeradwyo, diwygio neu'n newid ei raglen gwaith i'r dyfodol fel y gwêl yn briodol; ac
- 3.2 yn penodi aelodai i wasanaethu ar y Grwpiau Herio ar gyfer y Gwasanaeth Addysg a'r Grŵp Herio ar gyfer y Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol.

## **4. Manylion am yr adroddiad.**

- 4.1 Mae Erthygl 6 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi cylch gorchwyl, swyddogaethau ac aelodaeth pob Pwyllgor Archwilio, tra bo rheolau'r gweithdrefnau i bwyllgor archwilio wedi'u gosod yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.
- 4.2 Mae'r Cyfansoddiad yn amodi bod yn rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Drwy adolygu a blaenoriaethu materion mae modd i aelodau sicrhau fod y rhaglen waith yn cyflwyno rhaglen dan arweiniad yr aelodau.
- 4.3 Arfer sydd wedi'i fabwysiadu yn Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd yw bod pwyllgorau archwilio'n cyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyrir mewn unrhyw gyfarfod i uchafswm o bedwar, yn ogystal ag adroddiad

rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Nod y dull hwn yw hwyluso cael trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.

- 4.4 Yn y blynyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau rôl archwilio ar draws llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys defnyddio archwilio fel modd o ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Wrth fynd ymlaen disgwylir i archwilio ymgysylltu'n well ac yn amlach â'r cyhoedd gyda golwg ar sicrhau penderfyniadau gwell a fydd yn y pen draw yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion. Yn y dyfodol, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn mesur effeithiolrwydd archwilio wrth gyflawni'r disgwyliadau hyn.
- 4.5 Gan ystyried y weledigaeth genedlaethol ar gyfer archwilio ac ar yr un pryd ganolbwyntio ar flaenoriaethau lleol, mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio (GCIGA) wedi argymhell y dylai pwyllgorau archwilio'r Cyngor, wrth benderfynu ar eu rhaglenni gwaith, ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:
- arbedion ar y gyllideb;
  - cyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol (gyda phwyslais arbennig ar y modd o'u cyflawni yn ystod cyfnod o galedi ariannol);
  - unrhyw eitemau eraill a gytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio (neu'r GCIGA) fel blaenoriaeth uchel (yn seiliedig ar y meini prawf profion 'PAPER' - gweler ochr gefn y 'ffurflen gynnig aelodau' yn Atodiad 2 ) a;
  - Materion brys, materion na ellir eu rhagweld neu faterion â blaenoriaeth uchel

#### Ffurflenni Cynnig ar gyfer Archwilio

- 4.6 Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 4.2 uchod, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn i bwyllgorau archwilio baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith i'r dyfodol. Er mwyn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, os yw'r swyddogion o'r farn fod pwnc yn haeddu'r amser i gael ei drafod ar agenda fusnes y Pwyllgor, mae'n rhaid iddynt wneud cais ffurfiol i'r Pwyllgor i ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. Gwneir hyn trwy gyflwyno 'ffurflen gynnig' sy'n egluro pwrpas, pwysigrwydd a chanlyniadau posibl y pynciau a awgrymir. Does dim un ffurflen gynnig wedi dod i law oddi wrth swyddog i'w ystyried yn y cyfarfod cyfredol.
- 4.7 Er mwyn gwneud gwell defnydd o amser archwilio drwy ganolbwyntio adnoddau pwyllgorau i archwilio testunau'n fanwl, gan ychwanegu gwerth drwy'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer preswylwyr, penderfynodd y GCIGA y dylai'r aelodau, yn ogystal â swyddogion, gwblhau 'ffurflenni cynnig ar gyfer archwilio' yn amlinellu pam eu bod yn credu y byddai'r testun yn elwa o fewnbwn archwilio. Gellir gweld copi o 'ffurflen gynnig' yn Atodiad 2.

Mae ochr gefn y ffurflen hon yn cynnwys siart lif sy'n rhestru'r cwestiynau y dylai aelodau eu hystyried wrth baratoi i gynnig eitem ar gyfer archwilio, ac y dylai pwyllgorau eu gofyn wrth benderfynu ar addasrwydd testun arfaethedig i'w gynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol archwilio. Os, ar ôl cwblhau'r broses hon, y penderfynir nad yw'r testun yn addas i'w archwilio'n ffurfiol gan bwyllgor archwilio, yna gellir ystyried dulliau eraill o rannu'r wybodaeth neu archwilio'r mater e.e. darparu 'adroddiad gwybodaeth', neu os yw'r mater yn un o natur leol gellir ei archwilio gan y Grŵp Aelodau Ardal (GAA) perthnasol. Yn y dyfodol ni fydd unrhyw eitemau'n cael eu cynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol heb i 'ffurflen gynnig ar gyfer archwilio' gael ei chwblhau, ac i'r testun gael ei gymeradwyo i'w gynnwys ar y rhaglen gan un ai'r Pwyllgor neu'r GCIGA. Mae cymorth ar gael i lenwi'r ffurflenni gan y Cydlynnydd Archwilio.

#### Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Cabinet

- 4.8 Wrth benderfynu ar eu rhaglen waith i'r dyfodol mae'n bwysig fod pwyllgorau archwilio yn ystyried amserlen rhaglen waith y Cabinet. Ar gyfer y diben hwn, mae rhaglen waith y Cabinet wedi ei chynnwys yn Atodiad 3.

#### Datblygiad Penderfyniadau'r Pwyllgor

- 4.9 Yn Atodiad 4 mae tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori aelodau am eu gweithrediad.

### **5. Grwpiau Herio'r Gwasanaethau**

Mae gan bob pwyllgor archwilio gynrychiolydd sy'n gwasanaethu ar yr amrywiol grwpiau uchod. Yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Merfyn Parry o'r grwpiau uchod r mae dau le gwag i'w llenwi. Y naill ar y Grŵp Herio Addysg a'r llall ar y Grŵp Herio y Gwasanaethau Priffydd ac Amgylcheddol. Gofynnir i'r Pwyllgor benodi cynrychiolwyr newydd. Er gwybodaeth i aelodau yn Atodiad 5 mae copi o aelodaeth presennol craffu o'r grwpiau hyn.

### **6. Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio**

Dan drefniadau archwilio'r Cyngor mae Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio (GCIGA) yn gweithredu fel pwyllgor cydlynu. Cyfarfu'r Grŵp ar y15 Hydref 2015. Yn ystod y cyfarfod hwnnw penderfynwyd cyfeirio y materion canlynol at y Pwyllgor hwn at ddiben craffu arnynt: Datblygiad Ysbyty Gymunedol ar gyfer ardal y Rhyl (gweler y rhaglen waith ar gyfer Ionawr 2016) ac Adroddiad y Gwasanaeth Cynghorol Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HASCAS) ar Tawelfan (gweler o dan yr adran 'Materion ar gyfer y Dyfodol ar y rhaglen waith ar gyfer gwanwyn 2016).

**7. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd archwilio effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gynnal y blaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau trigolion. Bydd datblygu ac adolygu'r rhaglen waith gydlynol yn barhaus yn cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu ei flaenoriaethau corfforaethol, i wella canlyniadau i breswylwyr tra hefyd yn dygymod â thoriadau llym yn y gyllideb.

**8. Faint fydd hyn yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'n bosib y bydd yn rhaid i wasanaethau neilltuo amser swyddog i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r eitemau a nodwyd yn y rhaglen waith a chydag unrhyw gam gweithredu yn dilyn ystyried yr eitemau hynny.

**9. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb er diben yr adroddiad hwn gan nad yw ystyried rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor yn debygol o gael effaith andwyol neu annheg ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi'u diogelu.

**10. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?**

Does dim angen cynnal ymgynghoriad ar yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad ei hun a'r ystyriaeth a roir gan y Pwyllgor i'w raglen waith ar gyfer y dyfodol yn gyfystyr ag ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor o ran ei raglen waith.

**11. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes risg wedi ei ganfod o ran y Pwyllgor yn ystyried ei raglen waith. Fodd bynnag, wrth adolygu ei raglen waith yn rheolaidd gall y Pwyllgor sicrhau bod meysydd sy'n peri pryder yn cael eu hystyried a'u harchwilio fel y maent yn dod i'r amlwg a bod argymhellion yn cael eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â nhw.

**12. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Yn unol ag Erthygl 6.3.7 Cyfansoddiad y Cyngor mae'n rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi rhaglen waith a'i hadolygu.

**Swyddog Cyswllt:**

Cydlynnydd Archwilio

Rhif ffôn: (01824) 712554 E-bost: [dcc\\_admin@denbighshire.gov.uk](mailto:dcc_admin@denbighshire.gov.uk)

Note: Items entered in italics have not been approved for submission by the Committee. Such reports are listed here for information, pending formal approval.

| Meeting                                                      | Lead Member(s)                                                                  | Item (description / title)   | Purpose of report                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | Expected Outcomes                                                                                        | Author                          | Date Entered                            |
|--------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------|-----------------------------------------|
| 14 January 2016<br><br>Russell House<br>Rhyl & visit to SPoA | <b>Cllr. David Smith</b>                                                        | 1. CCTV                      | To outline the progress made to date with respect to exiting the current CCTV Service, the conclusion of the work undertaken by the CCTV working group to develop a new minimal CCTV model (funded by partners) operational from April 2016 and if successful consider the Board's proposals with respect to developing the service in future (i.e. attracting external investment into the service and collaborating with privately run CCTV schemes) | Delivering a sufficient CCTV Service with limited means to protect the county's residents and properties | Graham Boase/Emlyn Jones        | July 2015                               |
|                                                              | <b>Cllr. Bobby Feeley</b><br><br><b>Members to visit SPoA following meeting</b> | 2. Single Point of Access    | To consider the progress made with the establishment of the Single Point of Access Service                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Identification of any problems associated with the Service and actions to address them                   | Phil Gilroy/Cathy Curtis-Nelson | April 2014 (rescheduled September 2014) |
|                                                              |                                                                                 | 3. <i>Future Development</i> | <i>To inform the Committee of</i>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | <i>An understanding</i>                                                                                  | <i>Nicola Stubbins/BCUHB</i>    | <i>October 2015</i>                     |

| Meeting     | Lead Member(s)           | Item (description / title) |                                                                             | Purpose of report                                                                                                                                                                                                                                  | Expected Outcomes                                                                                                                                                                                                | Author                            | Date Entered |
|-------------|--------------------------|----------------------------|-----------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------|--------------|
